# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

**RHAN 3**

GWAREDIADAU TRETHADWY A WNEIR AR SAFLEOEDD TIRLENWI AWDURDODEDIG

**PENNOD 4**

CASGLU A RHEOLI'R DRETH

*Talu, adennill ac ad-dalu treth*

## 42 Talu treth

(1) Rhaid i berson sy'n dychwelyd ffurflen dreth dalu'r swm o dreth a nodir ar y ffurflen dreth fel y swm yr aseswyd ei fod i'w godi ar y person ar ddiwrnod ffeilio'r ffurflen dreth neu cyn hynny.

[[F1](1A) Ond os yw swm o gredyd treth wedi ei osod yn erbyn y swm hwnnw o dreth yn unol â rheoliadau a wneir o dan adran 54, y swm o dreth y mae'n ofynnol i'r person ei dalu erbyn y dyddiad hwnnw yw'r swm sy'n parhau i fod yn weddill ar ôl y gosod yn erbyn (os oes unrhyw swm o'r fath).**]**

(2) Pan asesir bod swm o dreth i'w godi ar y person o ganlyniad i ddiwygiad a wneir i'r ffurflen dreth o dan adran 41 o DCRhT (trethdalwr yn diwygio ffurflen dreth), rhaid i'r person dalu'r swm—

(a) os gwneir y diwygiad ar ddyddiad ffeilio'r ffurflen dreth neu cyn hynny, ar y dyddiad ffeilio neu cyn hynny, neu

(b) os gwneir y diwygiad ar ôl dyddiad ffeilio'r ffurflen dreth, ar y diwrnod y mae'r person yn rhoi hysbysiad i ACC am y diwygiad.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 42. (See end of Document for details)*

(3) Gweler y darpariaethau a ganlyn yn DCRhT am ddarpariaeth ynghylch talu symiau o dreth mewn amgylchiadau eraill—

adran 42(4A) (swm sy'n daladwy o ganlyniad i gywiriad a wneir i ffurflen dreth gan ACC);

adran 45(4) (swm sy'n daladwy o ganlyniad i ddiwygiad a wneir i ffurflen dreth yn ystod ymholiad);

adran 50(4) (swm sy'n daladwy o ganlyniad i ddiwygiad a wneir i ffurflen dreth ar ôl cwblhau ymholiad);

adran 52(5) (swm sy'n daladwy yn unol â dyfarniad ACC);

adran 61(2) (swm sy'n daladwy yn unol ag asesiad ACC).

**Diwygiadau Testunol**

**F1** A. 42(1A) wedi ei fewnosod (1.4.2018) gan Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Gweinyddu) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/101), rhl. 1(2), **Atod. para. 3**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 42 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 42 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 42.